**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2025/26**

1. **Cefndir:** Y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.

2. **Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.1m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl a phensiwn athrawon. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 5.5% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2024, a hefyd cost cynnydd pellach o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2025 (am y 7 mis Medi 2025 – Mawrth 2026). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2024 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 3% Ebrill 2025.

3. **Yswiriant Gwladol:** Bydd cynnydd o **£1.9m** mewn cost yswiriant gwladol cyflogwr, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Lloegr i gynyddu cyfradd cyflogwr o 13.8% i 15.0%, ynghyd â lleihau'r trothwy i £5,000.

4. **Pensiwn Athrawon:** Roedd cynnydd yn y gyfradd cyfraniad cyflogwr ar bensiwn athrawon o 5% o Ebrill 2024. Mae grant penodol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/25 i ariannu'r cynnydd, gyda'r grant yn trosglwyddo i'r setliad ar gyfer 2025/26.

5. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £474k i gyllideb ar gyfer 2025/26 i ymdrin ag incrementau a lleihad trosiant staff o (£134k).

6. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn lleihau eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2024 i gyfrifo dyraniadau 2025/26. Mae'r sefyllfa yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau (£643k), sy'n cynnwys lleihad (£415k) i'r sector Gynradd a lleihad (£228k) i'r sector Uwchradd. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau yn gymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.

7. **Arbedion a Thoriadau:** Ar ôl gweithredu toriadau â cyfanswm o £1.966m yn 2023/24 a 2024/25, nid oes bwriad gweithredu arbedion pellach ar ysgolion yn 2025/26.

8. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2025/26 gan ddilyn yr un sail dyrannu â 2024/25.

9. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2025/26 o'i gymharu gyda 2024/25.